



9.30am, Dydd Mercher 22 Ionawr 2020
Ystafell Teifi, Canolfan Halliwell, Caerfyrddin

COFNODION

Presennol	
Enw	Sefydliad
Y Cyngorydd Emlyn Dole (Cadeirydd)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Jake Morgan	Cyngor Sir Caerfyrddin
Ros Jervis (Eitem 1-5)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sarah Jennings	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Kevin Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Carys Morgans	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Jonathan Feild	Adran Gwaith a Phensiynau
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Maria Battle	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cyngorydd Jan Curtice	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Christine Harley	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Uwch-arolygydd Craig Templeton	Heddlu Dyfed Powys
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin
Martyn Palfreman	Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

Hefyd yn bresennol	
Enw	Trefniadaeth
Y Cyngorydd Cefin Campbell	Cyngor Sir Caerfyrddin
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Jonathan Morgan (Eitem 1-5)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Jonathan Willis (Eitem 1-5)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Wendy Phillips	Cyngor Sir Caerfyrddin
Joanna Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Anna Bird	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Beth Cossins	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Amy Richmond Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Rhodri Griffiths	Llywodraeth Cymru
Anette Rumble	Cyfoeth Naturiol Cymru
Clare Pilborough	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr - CAVS

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cynghorydd Emlyn Dole, Is-gadeirydd y BGC, bawb i'r cyfarfod a dywedodd ei fod wedi derbyn ymddiheuriadau gan Barry Liles.

Ymddiheuriadau	
Enw	Sefydliad
Barry Liles	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Athro Jean White	Llywodraeth Cymru
Ruth Mullen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Rhian Dawson	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Julian Atkins	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin

2. Cofnodion a Materion yn Codi: 25 Tachwedd 2020

- Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.
- Cam Gweithredu 1 – Ymddiheurodd Gwyneth Ayers nad oedd cynrychiolydd yn bresennol o'r Cynghorau Tref a Chymuned gan nad oedd y Tîm Cymorth wedi rhoi gwybod iddynt am y cyfarfod. Bydd rota o bresenoldeb yn y dyfodol yn cael ei sefydlu.
- Cam Gweithredu 2 – Dywedodd Huwel Manley ei fod ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd o ariannu'r cynllun plannu coed.
- Cam Gweithredu 5 – Ymddiheurodd Gwyneth Ayers nad oedd y gweithdy ar garbon/argyfwng yn yr hinsawdd wedi'i gynnal eto a bod trafodaethau'n mynd rhagddynt â Sir Benfro i ddatblygu hyn.
- Cam Gweithredu 18 – Dywedodd Jonathan Feild y bydd cyfarfod nesaf grŵp gweithredu Sir Benfro mewn perthynas ag arfer da o ran lleoliadau profiad gwaith yn cael ei gynnal ar 26 Chwefror. Dylai unrhyw un sy'n dymuno mynychu fel sylwedydd gysylltu â Jonathan.
- Cam Gweithredu 28 – Cadarnhaodd Gwyneth Ayers yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf, bod llythyr wedi'i anfon at Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a Cheredigion i agor y drafodaeth am drefniadau'r BGC Rhanbarthol. Mae Sir Benfro wedi ymateb i ddweud y bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod eu cyfarfod ym mis Chwefror.

CAMAU GWEITHREDU

Cysylltwch â Jonathan Feild os oes gennych ddi-ddordeb mewn arsylwi cyfarfod o Grŵp Gweithredol Sir Benfro ar 26 Chwefror.	Pawb
--	------

3. Datblygiad Economaidd Rhanbarthol a Seilwaith

- Rhoddodd Rhodri Griffiths, Prif Swyddog Rhanbarthol Canolbarth a De orllewin Cymru, drosolwg o'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a gyhoeddwyd yn 2017. Mae'n amlinellu ffordd newydd o ymgymryd â datblygu economaidd, gyda ffocws ar le yn hytrach na chreu swyddi o fewn cwmnïau. Ceir pedwar egwyddor: symleiddio; llais rhanbarthol cryfach a dull gweithredu sy'n seiliedig ar le; ymyrraeth at ddiben cymdeithasol; paratoi busnesau ar gyfer cyfleoedd a heriau yn y dyfodol. Mae'r tri Phrif Swyddog Rhanbarthol ledled Cymru yn cydweithio'n agos i gefnogi busnesau.
- Canolbwyntio ar greu lleoedd, datblygu sefydliadau clwstwr a chadwyni cyflenwi gyda'r nod o ledaenu'r economi. Roedd y ffocws blaenorol ar sectorau wedi creu 10,000 o swyddi dros 3 blynedd. Fodd bynnag, nid oedd y ffocws hwn wedi darparu'r swyddi o ansawdd uchel yr oedd eu hangen, nid oedd wedi arwain at gwmnïau cynhenid yn cael y cymorth angenrheidiol ac nid oedd wedi arwain at greu cwmnïau a sefydliadau cryf a chynaliadwy yn ein heconomiâu. Mae'r gwaith presennol yn cynnwys edrych ar y sectorau sylfaen a sut i'w cefnogi. Dywedodd Rhodri fod ganddo ddi-ddordeb mewn Cynyddu Cyfoeth Cymunedau a'i fod yn arwain ar Fargen Ddinesig Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gobeithir tynnu elfennau o hyd i wneud cymunedau'n gryfach.

- Mae tîm Llywodraeth Cymru bellach yn cyd-fynd â ffiniau'r Awdurdodau Lleol ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu blaenoriaethau rhanbarthol, isranbarthol a lleol. Mae hyn yn golygu edrych ar sut y mae polisiâu ac ymyrraeth yn effeithio ar gymunedau. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'r ffocws ar gefnogi cwmnïau a chadwyni cyflenwi, yn enwedig Cynyddu Cyfoeth Cymunedau. Awgrymodd Rhodri y gallai ei dîm weithio gyda'r BGC i sicrhau cydweithrediad y sector preifat gyda chydweithrediad y sector cyhoeddus a fyddai o fudd i gymunedau a phobl.
- Gwnaed y sylwadau canlynol mewn perthynas â Chaffael:
 - Mae rheolau cyfredol yn cyfyngu ar waith – Un ffocws ar gyfer Cynyddu Cyfoeth Cymunedau fydd caffael, ceir darpariaethau o fewn deddfwriaeth ac mae angen gwella sgiliau pobl rheng flaen, o bosibl drwy ddsbarth meistr.
 - Mae gan 50-60% o'r broses gaffael ôl troed carbon ac mae angen edrych arni ar y cyd â datblygu cyfoeth i gadw mor lleol â phosibl. Dywedodd Rhodri Griffiths fod y modd y mae cwmnïau'n datgarboneiddio yn un o'r elfennau yr edrychir arni wrth gefnogi cwmnïau.
 - Mae caffael yn golygu llawer mwy na phris ac mae cwmnïau mawr yn dda iawn am ysgrifennu ceisiadau.
 - Gwnaed ymholiad o ran yr amserlen ar gyfer Dosbarth Meistr Caffael. Dywedodd Gwyneth Ayers fod Barry Liles yn awyddus i ddatblygu hyn cyn gynted ag y bo modd. Ychwanegodd Rhodri fod nifer o sefydliadau sy'n gallu cynorthwyo fel megis CLES ac y gallai cyllid fod ar gael i ddatblygu'r Dosbarth Meistr.
- Dywedodd Gwyneth Ayers fod cyfle wedi codi cyn y Nadolig i gyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am brosiect peilot o ran Cynyddu Cyfoeth Cymunedau. Cyflwynwyd datganiad o ddiddordeb a bydd yn cael ei rannu â'r Bwrdd. Cysylltwyd â Cheredigion a Sir Benfro o ran cais clwstwr, ond oherwydd yr amserlen dynn, nid oeddem yn gallu cyflwyno cais ar y cyd. Serch hynny, mae Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi datgan yn eu cynigion unigol eu bod yn hapus i weithio gyda'i gilydd pe bai hynny'n cryfhau'r sefyllfa o ran dod yn brosiect peilot. Disgwylir y bydd penderfyniad ar ganlyniad y cais yn cael ei rannu ag aelodau'r Bwrdd cyn bo hir.
- Dywedodd Ros Jervis fod canlyniadau iechyd a llesiant y boblogaeth yn fwy na chael cartrefi diogel a swydd ddiogel. Mae creu cyfoeth yn cynyddu iechyd felly mae angen manteisio i'r eithaf ar y potensial. Dywedodd Ros fod croeso i Rhodri gysylltu â hi os oedd angen.

CAMAU GWEITHREDU

Dosbarthu'r mynegiant o ddiddordeb o ran Cynyddu Cyfoeth Cymunedau.	Tîm Cefnogi'r BGC
Rhannu canlyniad y cais o ran Cynyddu Cyfoeth Cymunedau.	Tîm Cefnogi'r BGC
Datblygu'r Dosbarth Meistr Caffael cyn gynted ag y bo modd. Efallai y bydd cyllid ar gael drwy Rhodri Griffiths.	Tîm Cefnogi'r BGC

4. Symud Sir Gaerfyrddin Wledig Ymlaen: Cyfraniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus BGC

- Yn dilyn y cyflwyniad a ddarparwyd fis Medi diwethaf, roedd y Cynghorydd Cefin Campbell, Cyngor Sir Caerfyrddin, wedi tynnu sylw at y themâu allweddol y gellid eu datblygu mewn cydweithrediad.
- Y strategaeth hon yw'r cyntaf o'i bath i gael ei datblygu yng Nghymru, ond nid yw'r atebion i gyd gennym.
- Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio sy'n uwch na'r cyfartaledd ac rydym yn colli pobl ifanc o'r Sir. Y nod yw cadw pobl ifanc yn yr ardal a denu'r rhai sydd wedi gadael i ddychwelyd.
- Mae tai yn broblem benodol mewn ardaloedd gwledig, gyda phobl ifanc yn cael eu prasio allan o'r farchnad.
- Mae cymuned wydn yn arwain at greu cyfoeth a'r gobaith yw creu swyddi a datblygu sgiliau. Un nod yw creu partneriaeth rhwng y Cyngor Sir, Coleg Sir Gâr a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, i ystyried y posibilrwydd o sefydlu unedau busnes mewn ardaloedd gwledig a chanolfannau

technolog a sgiliau arloesi i annog pobl ifanc i arallgyfeirio i ymateb i'r heriau amaethyddol oherwydd Brexit.

- Rhaid cael band eang wrth ddenu busnesau i Sir Gaerfyrddin. Ar hyn o bryd, mae band cyflym iawn ar gael i 86% o'r Sir, fodd bynnag, cynhaliwyd seminar cyn y Nadolig lle mae swyddogion y Cyngor yn gweithio gydag Openreach i wella'r ddarpariaeth hon.
- Mae'r 10 tref wledig wedi cael eu nodi a bydd strategaeth adfywio unigol yn cael ei datblygu ar gyfer pob un, gan gynnwys y pentrefi cyfagos.
- Mae angen i ni gadw punt Sir Gaerfyrddin mor lleol â phosibl, ac mae hyn yn cyd-fynd â'r Economi Sylfaenol. Mae'r model Preston yn enghraifft dda o'r hyn y gellir ei wneud.
- Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn caniatáu cynllunio sensitif mewn ardaloedd gwledig.
- Mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn broblemau mewn ardaloedd gwledig ac mae'r effaith niweidiol wedi cael ei chymharu ag ysmegu 20 sigarét y dydd.
- Rydym yn gweithio'n agos gyda'r sector amaethyddol nid yn unig ar Brexit ond hefyd ar newid yn yr hinsawdd. Mae cyfleoedd ar gyfer y sector os gallwn newid y rheolau caffael. Mae'r sector bwyd a diod yn bwysig iawn i Sir Gaerfyrddin.
- Dywedodd Gwyneth Ayers fod yr adroddiad gwledig yn cynnwys 55 o argymhellion. Mae'r rhai mwyaf perthnasol/o ddiddordeb i'r BGC wedi'u hamlygu er mwyn canfod a yw partneriaid yn ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith ar hyn o bryd neu a oes ganddynt ddiddordeb mewn cymryd rhan.
- Cafwyd nifer o sylwadau gan gynnwys:
 - Themâu trawsbynciol y grwpiau cyflawni
 - Yr angen i fynd i'r afael â materion trafndiaeth a pheirianneg ffyrdd
 - Mae rhywfaint o'r gwaith yn cael sylw ar hyn o bryd drwy'r Gronfa Drawsnewid
 - Yr angen i fynd i mewn i ysgolion yn gynharach.
- Tynnodd Rhodri Griffiths sylw at yr angen i fod yn glir am yr hyn sy'n ofynnol yn arbennig gan asiantaethau eraill e.e. Trafnidiaeth Cymru. Mae angen cydnabod bod yna bartneriaid cyflawni eraill.
- Dylid dosbarthu copi electronig o'r argymhellion sy'n benodol i'r BGC er mwyn cael sylwadau arnynt a thrafodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf yn seiliedig ar ymatebion.

GWEITHRED

Dosbarthu copi electronig o'r argymhellion sy'n benodol i'r BGC.	Tîm Cefnogi'r BGC
Cyflwyno sylwadau ar argymhellion sy'n berthnasol i'w sefydliad.	Pawb
Mae trafodaeth bellach i'w chael yn y cyfarfod nesaf yn seiliedig ar ymatebion.	Tîm Cefnogi'r BGC

5. Cynllun Adfywio Cymunedol Tyisha

- Dywedodd y Cyng. Emlyn Dole fod hwn yn gynllun adfywio cymunedol sy'n edrych ar sefyllfa ward gyfan.
- Ychwanegodd Jonathan Morgan fod y rhan fwyaf o asiantaethau'n gwybod am y materion yn ward Tyisha. Cafwyd ymgysylltu â'r gymuned leol 12-18 mis yn ôl sydd wedi dylanwadu ar y newid trawsnewidiol a fydd yn digwydd.
- Rhoddodd Jonathan Willis gyflwyniad ar yr uchelgais hirdymor ar gyfer yr ardal sy'n fenter gorfforaethol ac sy'n cynnwys llawer o bartneriaid.
- Mae ward Tyisha yn cysylltu Llynnoedd Delta a'r dref, sy'n cynnwys ardal Heol yr Orsaf a'r orsaf drenau.
- Dyma ardal fwyaf difreintiedig Sir Gaerfyrddin, gyda lefelau incwm isel nodweddiadol, lefel uchel o ddiweithdra, lefel uchel o bobl heb gymwysterau a phresenoldeb isel yn yr ysgol.
- O ran tai, mae llety tymor byr, neu lety dros dro â chymorth wedi'u crynhoi yn yr ardal y credir ei bod yn cyfrannu at y problemau. Mae gan yr ardal y lefel uchaf o lety rhent cymdeithasol a phreifat yn Sir Gaerfyrddin, gyda 22% yn landlordiaid rhent preifat.

- Cynhaliwyd yr ymarfer ymgysylltu â'r gymuned yn ystod mis Mai - Hydref 2018. Cynhaliwyd pymtheg o weithdai ac fe'u mynychwyd gan nifer o drigolion a busnesau. Roedd y canlyniadau'n gysylltiedig â materion a nodwyd eisoes.
- Mae gwaith wedi'i wneud gyda dylunwyr/ymgynghorwyr trefol sydd wedi gwneud rhywfaint o waith ar hyfywedd economaidd, yn enwedig ym maes tai. Roedd y Bwrdd Gweithredol wedi cymeradwyo'r cynlluniau ym mis Hydref 2019.
- Y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod y sesiynau ymgysylltu oedd:
 - Diogelwch cymunedol – cyffuriau, ymddygiad gwrthgymdeithasol lefel isel, alcohol mewn mannau cyhoeddus a lladrata/bwrgleriaeth cyffredinol. Mae'r lefel uchaf o droseddau yn Sir Gaerfyrddin yn ward Tyisha.
 - Yr amgylchedd – sbwriel, problemau gwastraff, tipio anghyfreithlon a baw cŵn.
 - Diffyg cyfleusterau cymunedol a hamdden – coed a phlannu, parcio a materion traffig a diffyg cyfleusterau hamdden a diffyg cyfleoedd i bobl ifanc.
 - Tai – materion yn ymwneud â fflatiau a rheoli'r sector rhentu preifat.
- Y cynllun ar gyfer yr ardal yw:
 - Gwella'r amgylchedd, gan ei wneud yn lle gwell i fyw
 - Gwella'r tai gyda gwell cymysgedd, atal y llety dros dro a'i wneud yn fwy parhaol ac yn lle gwell i fyw gyda mwy o berchen-feddiannaeth.
 - Newid yr amgylchedd ffisegol a fydd yn cychwyn newid cymdeithasol. Edrych ar gyfleoedd i bobl ifanc, cyflogaeth a gwell cyfleusterau cymunedol.
- Mae porth wedi cael ei drafod sy'n cysylltu'r Pentref Llesiant â'r orsaf a chanol y dref. Byddai hyn yn fath o Rodfa lle byddai mwy o blannu coed mewn mannau gwyrdd a llwybr dymunol. Byddai'r porth o flaen yr orsaf drenau gyda thai newydd yn yr ardal. Mae hyn hefyd yn cysylltu â buddsoddiad arfaethedig Network Rail yn yr orsaf.
- Mae cynlluniau'n ceisio mynd i'r afael â'r modd y mae'r stryd yn edrych a materion amgylcheddol, h.y. dodrefn stryd o ansawdd uchel, mwy o goed a mannau gwyrdd. Bydd parc a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddar yn agos at y brif ffordd yn dwyn ffrwyth dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer cŵn cerdded, a fydd yn mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â baw cŵn, a chyfleusterau chwarae o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc a theluoedd yn yr ardal.
- Mae'r adran dai ar hyn o bryd yn ymgysylltu â thenantiaid presennol sy'n fodlon symud ac sydd am gael llety arall, a'r prosiect tai â chymorth o ran opsiynau eraill.
- Bydd tai cyfoes newydd gydag ymdeimlad o bentref gardd. Bydd deiliadaeth gymysg h.y. perchen-feddiannaeth, perchentyaeth cost isel a thai cymdeithasol. Bydd ymarfer profi'r farchnad yn cael ei gomisiynu'n fuan i ddewis partner.
- Mae rhai prosiectau'n cael eu digomisiynu ac mae dewisiadau eraill yn cael eu datblygu. Bydd yr ardal yn cael ei rheoli gan bolisi gosod lleol.
- Mae datblygu partneriaeth yn allweddol i'r prosiect hwn, cynhaliwyd gwaith allgymorth cyn y Nadolig mewn partneriaeth â'r gwasanaeth cyffuriau a'r heddlu.
- Mae cynllun cyfathrebu yn elfen allweddol gyda chysylltiadau ag adrannau amrywiol e.e. Adran yr Amgylchedd i fynd i'r afael â gwastraff.
- Y gobaith yw datblygu canolfan ar gyfer plant a phobl ifanc, teuluoedd yn gyntaf ac o bosibl canolfan iechyd.
- Dywedodd Jake Morgan fod y gymuned hon, yn anfwriadol dros y blynyddoedd wedi cael nifer o broblemau yno. Bydd y gwaith ar y cynllun trawsnewid 5-10 mlynedd hwn yn dechrau eleni.
- Dywedodd Cefin Campbell fod y prosiect hwn wedi deillio o Weithgor Trechu Tlodi lle nodwyd bod y lefelau yn y ward hon yn annerbyniol o uchel. Mae gan y rhan fwyaf o drigolion yr ardal eu gwreiddiau yn ward Tyisha ac maent yn falch o'u cymuned, ond mae llawer o'r materion yn gysylltiedig â chyffuriau a phroblemau cymdeithasol. Mae hon yn gymuned drefol ddifreintiedig a gallai cysyniad yr Economi Sylfaenol weithio yn yr ardal hon.
- Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Mae angen cymryd gofal o ran yr iaith a ddefnyddir. Gall pobl ganfod eu hunain mewn sefyllfaoedd nad ydynt yn sefyllfaoedd o'u dewis.
- Y meysydd sy'n tyfu fwyaf o ran gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yw camddefnyddio alcohol yn y rhai dros 50 oed. Mae'r stigma sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn effeithio ar sut y mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau ac mae angen i ni fod yn ofalus yn y modd y bydd hyn yn cael ei gyflwyno. Mae'n debyg mai lleiafrif bach sy'n ymwneud ag yfed ar y stryd, troseddau trefn gyhoeddus a materion camddefnyddio cyffuriau.
- Mae gan Goleg Sir Gâr brosiect dysgu oedolion hyblyg a gall ddatblygu addysg a hyfforddiant. Mae hefyd yn bosibl y gallai'r Coleg fynd i hwb llesiant/canolfan dysgu cymunedol yn y ward yn hytrach na phreswylwyr yn mynd i'r coleg.
- Mae'r Grŵp Cyflawni Gwaith Atal ac Ymyriadau Cynnar wedi nodi ward Tyisha ar gyfer ymyrraeth. Mae rhai o'r materion yn dibynnu ar arferion diwylliannol/cymdeithasol o fewn y cymunedau a heb fynd i'r afael â'r materion hynny, ni fydd y ddeinameg yn newid waeth be fo'r buddsoddiad yn yr ardal. Mae angen ymgysylltu â phobl mewn ffordd sy'n eu galluogi i arwain a grymuso'r gymuned i fod yn berchen ar y prosiect, gellid gwneud hyn drwy'r dull Datblygu Cymunedol sy'n seiliedig ar Asedau
- Mae'r Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer iechyd yn brosiect arall a fydd yn cyd-fynd â'r gwaith hwn.
- Dywedodd Craig Templeton iddo fod yn Heol yr Orsaf neithiwr ynglŷn â phryderon am sut y mae'r ardal/ward yn cael ei phlisma. Siaradodd â nifer o bobl gan gynnwys bachgen 18 oed oedd ag arfer cyffuriau dyddiol a oedd yn pryderu ynghylch ble y bydd yn cael ei symud. Yn 2018 roedd 10% o droseddau Sir Gaerfyrddin yn ward Tyisha.
- Dywedodd Carys Morgans fod y Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn awyddus i ariannu prosiectau yn yr ardal ac mae wedi ariannu £50k i brosiectau lleol dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Awgrymodd Maria Battle ddefnyddio canllaw arfer gorau o ran ymgysylltu â phobl ifanc wrth gynllunio'r pethau y byddent yn eu defnyddio ac yn mynd iddynt. Comisiynwyd 'Rhywun i wrando, rhywbeth i'w wneud' gan Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, roedd wedi datblygu o safbwynt sicrhau hawliau plant a lleihau trosedd.

CAMAU GWEITHREDU

Darparu dolen i'r canllaw arfer gorau 'Rhywun i wrando, rhywbeth i'w wneud'

Maria Battle

6. Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru

- Rhoddodd Martyn Palfreman y wybodaeth ddiweddaraf am y Gronfa Trawsnewid, sydd i'w defnyddio rhwng nawr a Mawrth 2021.
- Mae dwy o'r tair rhaglen a ariennir yn berthnasol i nifer o'r materion a drafodwyd eisoes.
 - Rhaglen 1: Gofal Rhagweithiol Trwy Gymorth Technoleg – gobeithir y bydd hyn yn fyw yn Sir Gaerfyrddin cyn bo hir gyda'r garfan gyntaf o'r cynllun yn ystod yr wythnosau nesaf.
 - Rhaglen 7: Creu Cysylltiadau i Bawb – mae'r gwaith o hyrwyddo gwirfoddoli a gwella cysylltiad cymunedol wrth gysylltu pobl ac adnoddau o fewn cymunedau yn mynd yn ei blaen. Mae cysylltiadau gyda BGC Sir Gaerfyrddin gan fod ganddynt is-grŵp o dan y Grŵp Cyflawni Atal ac Ymyrraeth Gynnar.
- Gwahoddwyd cynigion am £0.7m ychwanegol ynghylch atal a'r blynyddoedd cynnar. Arweiniwyd y cynnig hwn gan Ros Jervis sy'n cwmpasu llesiant plant drwy ddull ysgol gyfan, rhagnodi cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer iechyd a chefnogi ffyrdd iach o fyw. Disgwylir cadarnhad o'r gymeradwyaeth.
- Cafwyd cadarnhad yn ddiweddar bod £1.4m ychwanegol wedi'i ddyfarnu i raglenni sy'n bodloni'r meini prawf cychwynnol. Cafwyd cais hefyd i ystyried rhaglenni y gellir eu cynnal dros fwy nag un rhanbarth ac o bosibl ledled Cymru. Mae grŵp yn llunio cynigion i'w cyflwyno erbyn 9 Mawrth. Bellach gellir ail-ymweld â chynigion na chawsant eu cymeradwyo yn y cylch cyntaf.

- Cafwyd gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am yr hyn a fyddai'n rhan o'r cynllun peilot ar gyfer y Fframwaith Hunanasesu a oedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Oherwydd cyfyngiadau amser, bydd argymhelliad yn cael ei wneud i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i beidio â'i gyflwyno'n ffurfiol fel cynllun peilot, serch hynny, argymhellir ein bod yn defnyddio'r deunydd i wneud gwaith manwl, gan edrych ar y bwrdd a sut y mae'n gweithredu fel partneriaeth ehangach.
- Bydd adroddiad gwerthuso canol tymor yn cael ei gynhyrchu ledled Cymru erbyn diwedd mis Mawrth a gofynnwyd am wybodaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar gan y Bwrdd Rhanbarthol, bydd gwybodaeth ychwanegol i'w darparu mewn cyfarfod yn y dyfodol.

CAMAU GWEITHREDU

I rannu'r hyn a ddysgir o broses hunanasesu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Martyn Palfreman
Darparu gwybodaeth ychwanegol am yr adroddiad gwerthuso mewn cyfarfod yn y dyfodol.	Martyn Palfreman

7. Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin – Cynlluniau Prosiect y Grŵp Cyflawni

Cysylltiadau Cryf

- Dywedodd Marie Mitchell fod gweithgor gwirfoddoli wedi'i sefydlu i rannu arfer da a hyrwyddo gwirfoddoli, a bod canolfan wybodaeth wedi'i chreu i edrych ar y broses o gyfuno adnoddau a dogfennau a'u datblygu.
- Trefnir digwyddiad recriwtio ar y cyd ar gyfer gwirfoddolwyr ym mis Mawrth/Ebrill, a bydd hwn yn dwyn ynghyd sefydliadau a darpar wirfoddolwyr.
- Mae digwyddiad dathlu ar y cyd i wirfoddolwyr yn cael ei ystyried yn ystod yr wythnos wirfoddoli ym mis Mehefin.
- Bydd y gweithgor yn edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cronfa o wirfoddolwyr gwasanaethau cyhoeddus, y bydd pob partner yn gallu ei defnyddio ar ôl cael DBS.
- Achredu gwirfoddolwyr yn cael ei hystyried.
- Yn dilyn y gweithdy darganfod gwirfoddoli a gynhaliwyd y llynedd, bu trafodaethau ynghylch cael marc i gydnabod bod sefydliadau yn croesawu gwirfoddolwyr. Byddai hon yn system symlach i'r Cynllun Cenedlaethol 'Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr' ac yn dangos bod sefydliad yn cymryd gwirfoddolwyr a bod gan y sefydliad y gwaith papur gofynnol.
- Mae newid gwirfoddolwyr i statws cyflogaeth hefyd wedi'i drafod. Nid oedd yr holiadur a gwblhawyd ar ddiwedd 2018 wedi casglu'r wybodaeth hon, ond byddai angen i adran adnoddau dynol pob sefydliad ei darparu. Ar hyn o bryd, rydym yn ymwybodol mai dim ond un sefydliad sy'n caniatáu gwirfoddolwyr i wneud cais am swyddi mewnol yn unig.
- Cafwyd y cyflwyniad Bromley by Bow yn y cyfarfod diwethaf ac mae gwaith ar y gweill i nodi'r mentrau cymunedol cyfredol yn Sir Gaerfyrddin.

Atal ac Ymyrraeth Gynnar

- Dywedodd Beth Cossins fod hyfforddiant a datblygiad yn un o dri maes ffocws ar gyfer y grŵp, gyda hyfforddiant fel cyfeillion dementia, Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig ac Ymwybyddiaeth o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Fodd bynnag, mae angen fframwaith i ganiatáu i'r holl staff rheng flaen gael mynediad i'r hyfforddiant a'i dderbyn.
- Mae nifer o weithdai wedi'u cynnal gyda'r diweddaraf ym mis Ionawr yn darparu'r hyfforddiant i staff rheng flaen ar Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig. Mae adborth o'r sesiwn hon yn cael ei fwydo i'r dull rhanbarthol a ariennir drwy'r Gronfa Trawsnewid.
- Cydnerthu cymunedol - mae'r gweithdai'n canolbwyntio ar y cyfleoedd sydd ar gael i feithrin cydnerthedd mewn cymunedau, gobeithir cysylltu hyn â'r dull sy'n seiliedig ar leoedd yn Nhyisha.
- Ychwanegodd Joanna Jones fod lefelau uchel o afiechyd cronig ac anweithgarwch yn Nhyisha sy'n rhoi cyfle i ddefnyddio'r cais i'r Gronfa Iach ac Egniol a fu'n aflwyddiannus y llynedd. Mae'r

materion a ddisgrifir yn y cais yn helaeth ac mae cyfle i ymgorffori hyn yn y dull seiliedig ar leoedd i gael pobl yn barod ar gyfer y Pentref Llesiant.

- Ychwanegodd Beth Cossins fod uwchgynhadledd wedi cael ei chynnal ddoe ar Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd gyda 110 o gynrychiolwyr o 41 o sefydliadau ledled y rhanbarth. Dyma ddechrau sgysiau ar sut i ddatblygu ymagwedd ranbarthol a sut i gefnogi staff rheng flaen i ddarparu Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer iechyd.

Pobl a Lleoedd Ffyniannus:

Cynnig Rhaglen Profiad Gwaith - y camau nesaf

- Atgoffodd Jonathan Feild y gofynnir am ateb gan y rhai nad ydynt eisoes wedi'u darparu ateb mewn perthynas â chytundeb mewn egwyddor i sefydliad gynnal lleoliadau profiad gwaith.
- Y cam nesaf fyddai sefydlu grŵp gweithredol i gasglu manylion am y lleoliadau gwaith ym mhob sefydliad, gan efelychu'r arferion gorau o fodel Sir Benfro. Mae Jane Lewis ac Andrew Cornish ar fin cyfarfod â Choleg Sir Benfro a gall y canlyniadau lywio model Sir Gaerfyrddin.
- Mae posibilrwydd o orgyffwrdd â Grŵp Cyflenwi Cysylltiadau Cryf, yn enwedig o ran gwirfoddoli i gyflogaeth.
- Mewn perthynas ag argymhelliad 19 ac 20 o Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen , mae 91.4% o gyflogwyr yn Sir Gaerfyrddin yn fusnesau micro neu BBaCH sy'n ei gwneud hi'n anoddach iddynt gynnal lleoliadau profiad gwaith. Mae angen ymwybyddiaeth ehangach o'r ystod o sectorau a chyfleoedd yn Sir Gaerfyrddin gan fod potensial enfawr.

Cronfa Her yr Economi Sylfaenol - y wybodaeth ddiweddaraf

- Rhoddodd Gwyneth Ayers ddiweddariad ar y Gronfa Her Economi Sylfaenol.
- Mae'r Prosiect Caffael Bwyd Lleol yn casglu momentwm gan edrych ar ddwy elfen:
 - Caffael mewnol fel cyrff cyhoeddus a sut rydym yn caffael cyflenwadau bwyd
 - Y gadwyn gyflenwi leol a'i pharodrwydd i ymateb os gallwn newid yr arferion caffael.
- Mae Simon Wright o 'Wrights Food' yn gwbl gefnogol i'r prosiect a bydd yn bartner allweddol ar y Grŵp Llywio. Bydd yn canolbwyntio ar y gadwyn gyflenwi leol.
- Gobeithir cael cymorth caffael gan CLES.
- Bydd Swyddog Prosiect yn cael ei recriwtio i arwain y gwaith hwn. Bydd yr arian yn cael ei wario erbyn Mawrth 2021.

CAMAU GWEITHREDU

Gofynnwyd am ateb gan y rhai nad oeddent eisoes wedi rhoi ateb o ran cytuno mewn egwyddor i sefydliadgynnal lleoliadau profiad gwaith.	Pawb
--	------

8. Diweddariad ynghylch y cydweithio rhwng y BGC a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

- Dywedodd Gwyneth Ayers fod y system wybodaeth ddigidol ar draws y rhanbarth wedi mynd allan i dendr i benodi cwmni i ddatblygu'r system. Mae penodiad wedi'i wneud a chaiff ei gadarnhau maes o law.
- Bydd y cwmni llwyddiannus yn gweithio gyda phob sefydliad i edrych ar y data a'r wybodaeth gorfforaethol sydd gennym. Yn ogystal gellir ei ddefnyddio i ddatblygu ein cynllun llesiant.

9. Ynglwm er Gwybodaeth:

- Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin - Cyflawniadau 2019.

10. Unrhyw Fater Arall

- Nid oedd rhagor o faterion i'w trafod.

	Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu	Pwy	Diweddar
Camau gweithredu o'r cyfarfod ar 22 Ionawr			
1	Cysylltu â Jonathan Feild os oes diddordeb mewn arsylwi cyfarfod Grŵp Gweithredu Sir Benfro ar 26 Chwefror	Pawb	
2	Dosbarthu mynegiant o ddiddordeb o ran Cynyddu Cyfoeth Cymunedau	Tîm Cefnogi'r BGC	Wedi ei gwblhau
3	Rhannu canlyniad y cais o ran Cynyddu Cyfoeth Cymunedau	Tîm Cefnogi'r BGC	Yn dilyn cyswllt wrth Llywodraeth Cymru, daethpwyd i gytundeb i symud ymlaen â hyn mewn prosiect clwstwr ar draws y 4 PSB yng Ngorllewin Cymru (Sir Gâr, Ceredigion, Powys a Sir Benfro)
4	Datblygu'r Dosbarth Meistr Caffael cyn gynted ag y bo modd. Efallai y bydd cyllid ar gael drwy Rhodri Griffiths.	Tîm Cefnogi'r BGC	Bydd hyn nawr yn cyd-fynd ag Adeilad Cyfoeth Cymunedol y PSB trwy'r prosiect caffael
5	Dosbarthu copi electronig o'r argymhellion sy'n benodol i'r BGC	Tîm Cefnogi'r BGC	Wedi ei gwblhau
6	Cyflwyno sylwadau ar argymhellion sy'n berthnasol i'w sefydliad	Pawb	Gofynnwyd am sylwadau erbyn 17 Mawrth
7	Bydd trafodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf yn seiliedig ar ymatebion	Tîm Cefnogi'r BGC	Ar agenda cyfarfod PSB 31 Mawrth
8	Darparu dolen i'r canllaw arfer gorau 'Rhywun i wrando, rhywbeth i'w wneud'	Maria Battle	Wedi ei gwblhau
9	I rannu'r hyn a ddysgir o broses hunanasesu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Martyn Palfreman	I'w gwblhau pan fydd ar gael
10	Darparu gwybodaeth ychwanegol am yr adroddiad gwerthuso mewn cyfarfod yn y dyfodol	Martyn Palfreman	I'w gwblhau pan fydd ar gael
11	Gofynnwyd am ateb gan y rhai nad oeddent eisoes wedi rhoi ateb o ran cytuno mewn egwyddor i sefydliad gynnal lleoliadau profiad gwaith	Pawb	